# Gweithdrefnau cyffredinol ar gyfer ymchwilio i achosion o dorri amodau trwyddedau darlledu

**Gweithdrefnau**

Cyhoeddwyd 23 Mehefin 2025

# Cynnwys

## Adran


1. Trosolwg ........ 3
2. Cyflwyniad ........ 6
3. Cwyno ........ 10
4. Asesiadau ........ 14
5. Ymchwiliadau ........ 17
6. Camau pellach yn dilyn ymchwiliad ........ 22

# 1. Trosolwg

## Beth mae’r gweithdrefnau hyn yn ei gynnwys ac i bwy maen nhw’n berthnasol?

1.1 Mae’r gweithdrefnau sydd yn y ddogfen hon yn berthnasol i asesiadau ac ymchwiliadau i achosion posibl o dorri’r rhan fwyaf o’r amodau sy’n rhan o drwyddedau darlledwyr. Cyfeirir at y rhain yn y ddogfen hon fel “gofynion perthnasol”. Mae’r rhain yn cynnwys gofynion ar gyfer:

a) darlledu mathau penodol o gynnwys a chyflawni rhai cwotâu cynhyrchu a rhaglenni (sydd fel arfer wedi’u nodi yn y drwydded);
b) rhoi’r wybodaeth a/neu recordiadau mae Ofcom yn gofyn amdani i Ofcom;
c) talu ffioedd trwydded blynyddol; a
d) cydymffurfio â chodau a rheolau Ofcom.

1.2 Mae gweithdrefnau penodol eraill ar gyfer safonau cynnwys, tegwch a phreifatrwydd, a materion sy’n ymwneud â chystadleuaeth. Mae’r gweithdrefnau sydd yn y ddogfen hon yn berthnasol i bob darlledwr sydd â thrwydded Ofcom ac S4C, nad oes angen trwydded gan Ofcom. Mae gweithdrefnau ar wahân ar gyfer sianeli gwasanaeth cyhoeddus y BBC a gwasanaethau rhaglenni ar-alw oherwydd bod y gyfraith yn nodi eu bod yn cael eu rheoleiddio’n wahanol.

1.3 Gweler Adran 2 am fanylion llawn yr hyn y mae’r gweithdrefnau hyn yn ei gynnwys ac i bwy maen nhw’n berthnasol.

## Sut mae cwyno am ddarlledwr o dan y gweithdrefnau hyn

1.4 Os ydych chi’n meddwl bod darlledwr wedi methu â bodloni gofyniad perthnasol, gallwch gwyno wrth Ofcom gan ddefnyddio ein ffurflen gwyno ar-lein. Gallwch hefyd gysylltu â ni dros y ffôn, drwy wasanaeth cyfnewid testun neu gyfnewid fideo, neu drwy’r post. Cofiwch gynnwys cymaint o fanylion ag y gallwch er mwyn i ni allu asesu’r mater yn llawn. Os yw eich cwyn yn ymwneud â darlledu mathau penodol o gynnwys, dylid gwneud hyn o fewn 20 diwrnod gwaith i ddarlledu’r cynnwys.

1.5 Gweler Adran 3 am fanylion llawn ynghylch sut mae cwyno o dan y gweithdrefnau hyn.

## Sut rydym yn gorfodi o dan y gweithdrefnau hyn

1.6 Rydym yn agor asesiadau ac ymchwiliadau ar ein liwt ein hunain yn ogystal ag asesu cwynion a gawn. Mae’r gweithdrefnau yr un fath yn y ddau achos.

1.7 Yn gyntaf, mae pob cwyn a gawn yn cael ei asesu i weld a yw’n codi mater o sylwedd, sy’n gysylltiedig â gofyniad perthnasol. Hefyd, yn y cam hwn a thrwy gydol y broses orfodi, rydym yn ystyried a yw asesu/ymchwilio i’r mater/materion a godwyd yn flaenoriaeth weinyddol. Os byddwn yn penderfynu bwrw ymlaen, byddwn yn gofyn i’r darlledwr am wybodaeth a, lle bo hynny’n berthnasol, recordiadau o’i allbwn. Ar ôl i ni asesu’r mater, byddwn yn ystyried a


oes achos i ymchwilio iddo. Byddwn yn ceisio cwblhau asesiad cyn pen 15 diwrnod gwaith. Fel arfer, rydym yn cyhoeddi manylion yr achosion rydym wedi'u hasesu ond heb gynnal ymchwiliad iddyn nhw yn ein Bwletin Broadcast and On Demand.

1.8 Os byddwn yn penderfynu agor ymchwiliad, byddwn yn rhoi gwybod i'r darlledwr ac yn cyhoeddi, fel arfer, ein bod wedi agor ymchwiliad yn ein Bwletin Broadcast and On Demand. Yn y cam hwn, bydd y darlledwr fel arfer yn cael ei wahodd i wneud sylwadau ynghylch sut mae'n credu ei fod wedi bodloni'r gofyniad/gofynion perthnasol. Mewn achosion lle mae'r mater yn ffaith mae modd ei fesur, nid ydym yn gofyn am sylwadau yn y cam hwn. P'un ai ydym wedi gofyn am sylwadau gan y darlledwr neu beidio, byddwn yn paratoi Safbwynt Rhagarweiniol, sef asesiad rhagarweiniol Ofcom ynghylch a oes achos o dorri'r gofyniad/gofynion perthnasol a pham.

1.9 Bydd y Safbwynt Rhagarweiniol yn cael ei roi i'r darlledwr a bydd ganddo 10 diwrnod gwaith i ymateb. Bydd Penderfyniad terfynol yn cael ei wneud a'i gyhoeddi yn ein Bwletin Broadcast and On Demand. Byddwn yn ceisio cwblhau ymchwiliadau cyn pen 50 diwrnod gwaith.

1.10 Gweler Adran 4 a 5 y ddogfen hon am fanylion llawn ynghylch sut rydym yn gorfodi o dan y gweithdrefnau hyn.

1.11 Mae crynodeb syml ar lefel uchel o'n proses orfodi wedi'i osod yn y siart lif isod.




Mae'r siart llif hon yn grynodeb syml ar lefel uchel o'r proses orfodi yn unig, yn canolbwyntio ar ymgysylltiad Ofcom â'r sawl sy'n cwyno a darlledwyr. Mae'r gweithdrefnau llawn, gan gynnwys prosesau mewnol Ofcom, wedi'u nodi yn ein Gweithdrefnau Cyffredinol.

# 2. Cyflwyniad

## Fframwaith statudol a dyletswyddau Ofcom

2.1 Y prif statudau sy'n llywodraethu darlledu yw Deddfau Darlledu 1990 a 1996 ("Deddf 1990" a "Deddf 1996") a Deddf Cyfathrebiadau 2003 ("Deddf 2003"). Mae'r statudau hyn yn gosod dyletswyddau cyffredinol ar Ofcom mewn perthynas â darlledu ac yn rhoi pwerau i Ofcom i'n galluogi i gyflawni ein dyletswyddau.

2.2 Mae gan Ofcom ddyletswydd gyffredinol i sicrhau bod amrywiaeth eang o wasanaethau teledu a radio ar gael ledled y Deyrnas Unedig sydd (wrth eu hystyried gyda'i gilydd) o ansawdd uchel ac yn apelio at amrywiaeth o chwaethau a diddordebau.[1]

2.3 Mae gan Ofcom ddyletswyddau mwy penodol hefyd mewn perthynas â, er enghraifft:[2]

- y gofyniad i fathau penodol o orsafoedd radio ddarparu cynnwys penodol (er enghraifft, newyddion) neu fod o gymeriad penodol;
- y gofynion sy'n ymwneud â rhaglenni annibynnol, gwreiddiol a rhanbarthol ar wasanaethau teledu gwasanaeth cyhoeddus;
- y gofynion mewn trwyddedau teledu sy'n ymwneud â chynyrchiadau Ewropeaidd a chynyrchiadau annibynnol Ewropeaidd;
- darparu gwasanaethau isdeitlo, arwyddo a disgrifiadau sain ar wasanaethau teledu perthnasol; a
- cymhwyso rheolau sy'n cyfyngu ar y rheini sy'n dal trwyddedau darlledu.

2.4 Rydym yn cyflawni ein dyletswyddau drwy ddyfarnu trwyddedau i rai darlledwyr teledu a radio, ac yn y trwyddedau hynny rydym yn cynnwys amodau sydd, yn ein barn ni, yn briodol i'n helpu i gyflawni ein dyletswyddau.[3] Mae'r amodau hyn yn cynnwys gofynion ar drwyddedeion i: ddarlledu rhaglenni penodol a mathau penodol o gynnwys; darparu gwybodaeth i Ofcom er mwyn i ni allu cyflawni ein swyddogaethau rheoleiddio[4]; i dalu ffioedd; ac i gydymffurfio â'r codau amrywiol a gyhoeddir gan Ofcom. Mae enghreifftiau o'r codau perthnasol wedi'u rhestru isod.

2.5 Wrth gyflawni ein dyletswyddau, mae'n rhaid i ni hefyd ystyried dyletswyddau perthnasol eraill, gan gynnwys:

a) anghenion a buddiannau perthnasol grwpiau penodol o bobl a nodir yn adran 3(4) o Ddeddf 2003; ac
b) ein dyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus, gan gynnwys hybu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig penodol, a phobl nad ydynt yn gwneud hynny.[5]

---

[1] Adran 3(2)(c) o Ddeddf 2003.
[2] Nid yw'r rhestr hon yn cynnwys holl ddyletswyddau penodol Ofcom sy'n arwain at ofynion perthnasol y mae'r Gweithdrefnau Cyffredinol hyn yn berthnasol iddyn nhw.
[3] Adrannau 4(1)(a) a 87(1)(a) o Ddeddf 1990.
[4] Er enghraifft, gwybodaeth am newidiadau yn y darlledwyr hynny sy'n rheoli, adroddiadau blynyddol gan orsafoedd radio cymunedol a data trosiant blynyddol perthnasol gan sefydliadau penodol sy'n dal trwyddedau teledu a radio.
[5] Adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac adran 75 o Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998.

2.6 Bydd y darpariaethau penodol sy'n rhoi'r grym i Ofcom gymryd camau gorfodi mewn perthynas â thorri amodau trwydded yn dibynnu ar y math o drwydded dan sylw.[6]

2.7 Yn fwy cyffredinol, mae adran 8 o Ddeddf 2003 yn ei gwneud yn ofynnol i Ofcom gyhoeddi datganiad sy'n nodi'r safonau prydlondeb y mae Ofcom yn cynnig eu diwallu ac ystyried hyn wrth gyflawni ei ddyletswyddau. Mae'r gweithdrefnau hyn yn ddatganiad o dan adran 8 o Ddeddf 2003 ac mae Ofcom wedi rhoi sylw i'r safonau prydlondeb wrth gyflawni ei swyddogaethau gorfodi o dan y gweithdrefnau hyn.

## I beth mae'r gweithdrefnau hyn yn berthnasol

2.8 Mae'r gweithdrefnau hyn yn berthnasol i asesiadau a/neu ymchwiliadau i achosion posibl o dorri amodau trwydded (ac eithrio'r rheini y rhoddir sylw iddyn nhw o dan y gweithdrefnau penodol sydd yn y tabl isod). Yn y ddogfen hon, cyfeirir at amodau trwydded sy'n rhan o gwmpas y Gweithdrefnau Cyffredinol fel "gofynion perthnasol".

2.9 Mae'r gofynion perthnasol yn cynnwys, er enghraifft, gofynion a roddir ar ddarlledwyr i:

a) darlledu mathau penodol o gynnwys a chyflawni rhai cwotâu cynhyrchu a rhaglenni (sydd fel arfer wedi'u nodi yn y drwydded);
b) rhoi'r wybodaeth a/neu recordiadau mae Ofcom yn gofyn amdani i Ofcom;
c) talu ffioedd trwydded blynyddol; a
d) cydymffurfio ag amrywiol godau, fel:
   i) y Cod ar Wasanaethau Mynediad ar gyfer Teledu (hynny yw, isdeitlo, iaith arwyddion a disgrifiadau sain);
   ii) y Cod ar Ddigwyddiadau Chwaraeon a Digwyddiadau Rhestredig a Dynodedig Eraill;
   iii) y Cod ar Amserlenni Rhaglenni Electronig (mewn perthynas â materion sy'n ymwneud ag amlygrwydd sianeli gwasanaeth cyhoeddus a gwasanaethau mynediad); a
   iv) codau technegol ar gyfer teledu a radio, er enghraifft y Cod Perfformiad Technegol ar gyfer Teledu, a chodau technegol radio analog a digidol.

2.10 Mae gweithdrefnau gwahanol ar gyfer y materion canlynol:

| Math o ofyniad rheoleiddiol | Gweithdrefnau penodol a gwybodaeth arall |
|---|---|
| Asesiadau ac ymchwiliadau am gydymffurfedd darlledwyr â gofynion cynnwys a nodir yng Nghod Darlledu **Ofcom** a chodau eraill gan gynnwys y Cod Trawshyrwyddo; y Cod ar Amserlennu Hysbysebion Teledu; a Chod y DU ar gyfer Darlledu Hysbysebion Pwyllgor Darlledu Arferion Hysbysebu. | Mae'r achosion hyn yn cael sylw o dan y Gweithdrefnau ar gyfer ymchwilio i achosion o dorri safonau cynnwys ar gyfer teledu a radio. |
| **Asesiadau ac ymchwiliadau am gydymffurfiaeth darlledwyr â** Rheolau Ofcom ar Ddarllediadau Pleidiau Gwleidyddol a Refferenda **("Rheolau PPRB").** | Mae'r achosion yn cael sylw o dan y Gweithdrefnau Rheolau PPRB. |

[6] Mae darpariaethau statudol perthnasol yn cynnwys adrannau 40-42 a 109-111 o Ddeddf 1990 ac adrannau 236-238 a 340-341 o Ddeddf 2003.

| Math o ofyniad rheoleiddiol | Gweithdrefnau penodol a gwybodaeth arall |
|---|---|
| Ystyried a dyfarnu ynghylch cwynion sy'n ymwneud â Thegwch a Phreifatrwydd mewn perthynas â rhaglenni sy'n cael eu darlledu ar y teledu ac ar y radio, a chydymffurfiaeth darlledwyr â "chod tegwch" Ofcom dan adran 107 o Ddeddf Darlledu 1996. | Mae'r achosion yn cael sylw o dan y Gweithdrefnau ar gyfer ystyried a dyfarnu ynghylch cwynion Tegwch a Phreifatrwydd. |
| Amodau trwydded a chodau perthnasol i sicrhau cystadleuaeth deg ac effeithiol wrth ddarparu gwasanaethau darlledu. | Mae'r achosion hyn yn cael sylw o dan y Gweithdrefnau ar gyfer ymchwilio i achosion o dorri amodau sy'n gysylltiedig â chystadleuaeth mewn trwyddedau dan y Ddeddf Darlledu. |
| Y Cod ar Amserlenni Rhaglenni Electronig, sy'n nodi'r arferion i'w dilyn gan ddarparwyr Amserlenni Rhaglenni Electronig er mwyn (i) rhoi amlygrwydd priodol i sianeli gwasanaeth cyhoeddus, (ii) darparu'r nodweddion a'r wybodaeth sydd eu hangen i alluogi pobl sydd ag anableddau i ddefnyddio Amserlenni Rhaglenni Electronig a (iii) sicrhau cystadleuaeth deg ac effeithiol. | Yn gyffredinol, bydd Ofcom yn defnyddio'r Gweithdrefnau ar gyfer ymchwilio i achosion o dorri amodau sy'n ymwneud â chystadleuaeth mewn trwyddedau o dan y Ddeddf Darlledu ar gyfer achosion o dorri amodau (iii), a'r Gweithdrefnau Cyffredinol hyn ar gyfer achosion o dorri amodau (i) a (ii). |

# I bwy mae'r Gweithdrefnau Cyffredinol yn berthnasol?

2.11 Mae'r gweithdrefnau hyn yn berthnasol i ddarlledwyr teledu neu radio sy'n cael eu trwyddedu a/neu eu rheoleiddio gan Ofcom ac eithrio Gwasanaethau Darlledu Cyhoeddus y BBC yn y DU a Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alw Cyhoeddus y BBC yn y DU.[7] Mae gweithdrefnau eraill yn berthnasol i'r gwasanaethau hyn. Mae'r gweithdrefnau hyn yn berthnasol i gwmnïau darlledu masnachol y BBC sy'n cael eu trwyddedu gan Ofcom.

2.12 Nid oes angen trwydded gan Ofcom ar Awdurdod S4C (sy'n gweithredu ei wasanaeth teledu dan yr enw S4C), ond serch hynny mae'n rhwym wrth rai gofynion penodol.[8] Mae'r gofynion perthnasol mae Awdurdod S4C yn rhwym wrthynt yn cynnwys cydymffurfio â'r Cod ar Wasanaethau Mynediad ar gyfer Teledu, gofynion ar gwotâu rhaglenni annibynnol, a chadw recordiadau a'u cyflwyno i Ofcom. Mae'r gweithdrefnau hyn yn berthnasol i Awdurdod S4C yn y cyd-destun hwn.

2.13 Mae'r gweithdrefnau hyn hefyd yn cynnwys gwybodaeth i unigolion neu gyrff sydd am gwyno am ddarlledwr maen nhw'n amau ei fod wedi torri'r gofynion perthnasol.

# Statws y gweithdrefnau hyn

2.14 Daw'r gweithdrefnau hyn i rym ar 23 Mehefin 2025.

[7] Fel BBC iPlayer a BBC Sounds.
[8] Y darpariaethau perthnasol sy'n llywodraethu Awdurdod S4C yw adrannau 203 a 338, ac Atodlen 12, Deddf 2003, yn ogystal â darpariaethau fel y rheini sydd yn Rhan IV o Ddeddf 1996.

2.15 Os byddwn yn credu ei bod yn angenrheidiol gwyro oddi wrth y gweithdrefnau hyn mewn unrhyw ffordd o bwys mewn achos penodol am resymau sy'n ymwneud â thegwch a/neu er mwyn i ni ystyried cwyn neu gynnal asesiad neu ymchwiliad yn briodol, byddwn fel arfer yn ysgrifennu at y darlledwr dan sylw (ac unrhyw bartïon perthnasol eraill) ymlaen llaw, yn nodi natur/graddfa'r gwyro oddi wrthynt a'n rhesymau dros wneud hynny.

# 3. Cwyno

## Sut mae cwyno

3.1 Gall unrhyw unigolyn neu gorff gyflwyno cwynion wrth Ofcom o dan y gweithdrefnau hyn os ydyn nhw o'r farn nad yw darlledwr wedi cydymffurfio â gofyniad perthnasol.

### Cwynion sy'n ymwneud â chynnwys sydd wedi'i ddarlledu a materion oddi ar yr awyr

3.2 Dylid cyflwyno cwynion sy'n ymwneud â chynnwys sydd wedi'i ddarlledu a ddaw dan y gweithdrefnau hyn o fewn 20 diwrnod gwaith i ddarlledu'r cynnwys perthnasol oherwydd y cyfyngiadau amser sydd ar ddarlledwyr i gadw recordiadau o'u hallbwn.[9] Fel rheol, ni fyddwn yn derbyn cwyn sy'n cael ei chyflwyno ar ôl y dyddiad cau hwn am allbwn sydd wedi'i ddarlledu. Serch hynny, efallai y byddwn yn credu ei bod yn briodol (er budd tegwch a/neu er mwyn cynnal ymchwiliad yn briodol) diwygio neu addasu'r dyddiad cau mewn achos penodol. Dylai unrhyw un sy'n cwyno sydd eisiau estyniad i'r cyfyngiad amser o 20 diwrnod gwaith esbonio pam ei fod yn credu bod estyniad yn briodol, a gwneud hynny wrth gyflwyno'r gŵyn.

3.3 Byddem yn derbyn cwyn sy'n ymwneud â materion oddi ar yr awyr yn unig ar ôl 20 diwrnod gwaith, ond dylid gwneud y cwynion hyn cyn gynted â phosibl ar ôl i'r mater gael ei nodi.

3.4 Gofynnwn i gwynion gael eu cyflwyno ar y fersiwn Gymraeg neu Saesneg o'n ffurflen gwyno (fersiwn Gymraeg). Ni fydd cwynion a gyflwynir yn Gymraeg (ar y naill ffurflen neu'r llall) yn cael eu trin yn llai ffafriol na chwynion a gyflwynir yn Saesneg.

3.5 Fel arall, ar gyfer unrhyw gŵyn, gallwch gysylltu â ni dros y ffôn ar 0300 123 3333 neu 020 7981 3040 neu ar ein llinell Gymraeg 0300 123 2023. Gall pobl f/Fyddar neu bobl sy'n colli eu clyw gysylltu â ni drwy wasanaeth cyfnewid testun drwy lwytho'r ap cyfnewid testun i lawr ar gyfer ffonau clyfar, dyfeisiau tabled neu gyfrifiaduron. Gallwch gysylltu â ni hefyd gan ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain, gan ddefnyddio ein gwasanaeth cyfnewid fideo.

3.6 Er ei bod yn haws i ni dderbyn cwynion ar-lein neu dros y ffôn, gellir cyflwyno cwynion yn ysgrifenedig i: Cwynion am y Gweithdrefnau Cyffredinol, Grŵp Darlledu a'r Cyfryngau, Riverside House, 2a Southwark Bridge Road, Llundain, SE1 9HA.

### Cwynion sy'n ymwneud â gwasanaethau mynediad (isdeitlo, iaith arwyddion a disgrifiadau sain)

3.7 Yn achos cwynion sy'n ymwneud â darparu isdeitlau, iaith arwyddion a disgrifiadau sain, caiff y rheini sy'n cwyno, os ydynt yn dymuno gwneud hynny, geisio datrys y mater yn uniongyrchol gyda'r darlledwr cyn cyflwyno cwyn i Ofcom.[10] Cawn ar ddeall bod hyn wedi arwain at ddatrys cwynion yn gyflym ac yn effeithiol yn y gorffennol a bod cael cwynion ac adborth gan ddefnyddwyr yn helpu darlledwyr i wella ansawdd y gwasanaethau mynediad

[9] Rhaid i ddarlledwyr gadw recordiadau o raglenni radio am 42 diwrnod ar ôl y darllediad. Rhaid i recordiadau o raglenni teledu gael eu cadw gan ddarlledwyr cebl a lloeren am 60 diwrnod, a gan ITV, STV, UTV, Channel 4, Channel 5, S4C a sianeli teledu digidol daearol am 90 diwrnod.

[10] Mae manylion cyswllt pob darlledwr teledu ar gael ar ein gwefan.

maen nhw'n eu darparu. Os nad ydych chi'n fodlon â'r ymateb a gewch chi gan y darlledwr, cyflwynwch gŵyn drwy ein gwefan.

3.8 Efallai y bydd pobl ddall neu bobl sy'n rhannol ddall sydd am gwyno am ddisgrifiadau sain yn dymuno defnyddio ein cyfeiriad e-bost arbennig: adcomplaints@ofcom.org.uk. Gall pobl f/Fyddar neu bobl sy'n colli eu clyw gysylltu â ni drwy wasanaeth cyfnewid testun drwy lwytho'r ap cyfnewid testun i lawr ar gyfer ffonau clyfar, dyfeisiau tabled neu gyfrifiaduron. Gallwch gysylltu â ni hefyd gan ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain, gan ddefnyddio ein gwasanaeth cyfnewid fideo.

3.9 Fel arall, gallwch gysylltu â ni drwy ddefnyddio'r dulliau a nodir uchod.

## Yr wybodaeth sydd i'w chynnwys mewn cwyn

3.10 Dylai'r holl gwynion gynnwys digon o fanylion am fater y gŵyn er mwyn i ni allu asesu'r mater yn llawn. Dylai'r holl gwynion, felly, gynnwys manylion am:

a) yr hyn yr honnir iddo gael ei wneud, neu heb gael ei wneud;
b) gan ba ddarlledwr;
c) pryd (hynny yw, dyddiad(au) ac amser(oedd) penodol);
d) ble (hynny yw, sut cafodd y cynnwys ei ddarlledu, er enghraifft drwy Freeview neu ar DAB);
e) sut mae'r mater yn berthnasol i ofyniad perthnasol; a
f) unrhyw ohebiaeth flaenorol gyda'r darlledwr am y mater.

3.11 Dylid hefyd cynnwys manylion cyswllt y sawl sy'n cwyno (gan gynnwys manylion cyfeiriad post llawn pan fo'n briodol).

3.12 Mae'n bwysig iawn cynnwys y manylion uchod (neu gynifer ohonynt ag sy'n bosibl). Gall methu â'u darparu olygu na fyddwn yn gallu asesu'r gŵyn.

# Sut mae Ofcom yn delio â'ch gwybodaeth bersonol

3.13 Wrth asesu cwyn, byddwn fel arfer:

a) yn rhannu crynodeb yn unig o'r materion a godwyd gyda'r darlledwr; a
b) ddim yn rhannu enw'r sawl sy'n cwyno.

3.14 Rydym yn cydnabod, hyd yn oed pan na fyddwn yn datgelu enw'r sawl sy'n cwyno, y gallai datgelu union eiriad y gŵyn ddatgelu i'r darlledwr pwy yw'r sawl sy'n cwyno os yw'r gŵyn, er enghraifft, yn cynnwys cyfeiriadau at eu rhyw neu eu hoedran. Byddwn yn ystyried hyn wrth benderfynu pa wybodaeth i'w chynnwys yn y crynodeb o'r materion a godwyd.

3.15 Fodd bynnag, efallai y bydd rhai amgylchiadau lle rydym o'r farn bod angen rhannu union eiriad y gŵyn neu enw'r sawl sy'n cwyno. Rydym yn disgwyl mai prin fydd yr amgylchiadau hyn, ond gallent gynnwys amgylchiadau lle rydym yn ystyried ei bod yn angenrheidiol cael mynediad at union eiriad cwyn neu enw'r sawl sy'n cwyno er mwyn:

a) i'r darlledwr arfer ei hawl i amddiffyn yn briodol (gan gynnwys deall yn llawn natur y gŵyn a'r cyd-destun perthnasol sy'n angenrheidiol, yn ein barn ni, er mwyn rhoi unrhyw wybodaeth neu sylwadau perthnasol i ni); neu
b) i Ofcom asesu cwyn yn briodol a chyflawni ein swyddogaethau.

3.16 Mae hyn yn fwy tebygol o ddigwydd pan fydd cwyn yn ymwneud â ffordd mae unigolyn wedi cael ei drin. Efallai y bydd y gyfraith hefyd yn mynnu ein bod yn rhannu union eiriad cwyn

neu enw'r sawl sy'n cwyno, er enghraifft, lle bo hynny'n ofynnol gan Lys neu Dribiwnlys mewn perthynas ag achos sifil neu droseddol.

3.17 Yn yr achosion prin lle rydym o'r farn bod angen datgelu union eiriad y gŵyn neu enw'r sawl sy'n cwyno i ddarlledwr, byddwn yn penderfynu pa wybodaeth sy'n angenrheidiol i'w datgelu yn ein barn ni, a byddwn yn ystyried yn ofalus yr angen i ddatgelu yn erbyn unrhyw bryderon neu wrthwynebiadau sydd gan y sawl sy'n cwyno.

3.18 Os byddwn o'r farn bod angen datgelu gwybodaeth y mae'r sawl sy'n cwyno yn ei hystyried yn gyfrinachol, gan gynnwys ei enw, byddwn yn egluro i'r sawl sy'n cwyno yn gyntaf ein bwriad i ddatgelu'r wybodaeth hon a cheisio cydsyniad y sawl sy'n cwyno a/neu unrhyw wrthwynebiadau sydd ganddo i'n cyfiawnhad dros ddatgelu'r wybodaeth. Os nad yw'r wybodaeth yn gyfrinachol, ni fyddwn yn gofyn am ganiatâd i'w rhannu.

3.19 Mewn achosion lle ceir anghytundeb ynghylch a ddylid datgelu'r wybodaeth, byddwn fel arfer yn ceisio datrys y mater gyda'r sawl sy'n cwyno er mwyn cytuno ar yr hyn y gellir ei ddatgelu. Os bydd y sawl sy'n cwyno yn parhau i wrthwynebu, ni fyddai'r gŵyn (neu ran berthnasol o'r gŵyn) fel arfer yn rhan o unrhyw asesiad neu ymchwiliad. Fodd bynnag, os byddwn yn dal o'r farn bod angen i ni ddatgelu'r wybodaeth i gyflawni ein swyddogaethau, byddwn yn rhoi rhybudd ymlaen llaw i'r sawl sy'n cwyno cyn datgelu.

3.20 Nid yw'r uchod yn berthnasol i chwythwyr chwiban.[11]

3.21 Rydym yn defnyddio'r wybodaeth y mae'r sawl sy'n cwyno yn ei rhoi er mwyn i ni allu cyflawni ein swyddogaethau sy'n ymwneud ag ymchwilio i achosion posibl o dorri gofynion rheoleiddiol o dan Ddeddf Darlledu 1990, Deddf Darlledu 1996 a Deddf Cyfathrebiadau 2003.

3.22 Ni fyddwn yn cadw data personol y sawl sy'n cwyno am fwy na sydd ei angen ar gyfer cyflawni ein swyddogaethau.

3.23 Edrychwch ar Ddatganiad Preifatrwydd Cyffredinol Ofcom i gael rhagor o wybodaeth am sut mae Ofcom yn delio â gwybodaeth bersonol y sawl sy'n cwyno a'i hawliau cyfatebol.

## Cyfathrebu ag achwynwyr

3.24 Yn gyffredinol, nid yw Ofcom yn gohebu â'r sawl sy'n cwyno ar ôl derbyn cwyn o dan y gweithdrefnau hyn, ac eithrio pan fyddwn yn credu bod angen (a) gofyn am ganiatâd i rannu enw'r sawl sy'n cwyno â'r darlledwr; neu (b) datgelu rhannau o gŵyn y mae'r sawl sy'n cwyno wedi nodi eu bod yn gyfrinachol, neu pan fydd datgelu union eiriad cwyn i ddarlledwr yn datgelu pwy yw'r sawl sy'n cwyno (gweler 'Sut mae Ofcom yn delio â'ch gwybodaeth bersonol' uchod).

3.25 Bydd canlyniad cwyn yn cael ei gyhoeddi yn ein Bwletin Broadcast and On Demand. Os bydd y sawl sy'n cwyno yn gofyn am gael y Bwletin Broadcast and On Demand mewn fformat gwahanol, mae modd iddyn nhw gysylltu ag Ofcom drwy'r ffyrdd uchod, drwy cysylltu â'n

[11] Mae Ofcom yn "unigolyn a ragnodir" dan Ran IVA o Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 1996 (fel y'i mewnosodwyd gan Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998) ac y mae modd gwneud "datgeliadau cymwys" iddo ynghylch rhai materion, gan gynnwys darlledu a darparu gwasanaethau teledu a radio. Mae Ofcom wedi cyhoeddi canllawiau ynghylch sut caiff unigolion sy'n gweithio yn y sector cyfathrebu gysylltu â ni os oes ganddynt bryderon ynghylch camwedd posibl yn eu sefydliad eu hunain (neu eu cyn sefydliad) a lle na fu modd iddyn nhw godi neu ddatrys y pryderon hynny'n fewnol.

Tîm Digidol gan ddefnyddio ffurflen ar-lein, neu drwy anfon e-bost i accessibilityrequests@ofcom.org.uk. Serch hynny, efallai y bydd rhai achosion pan fyddwn o'r farn y byddai'n amhriodol rhoi cyhoeddusrwydd i'r mater, er enghraifft oherwydd bod y materion yn arbennig o sensitif a/neu gallai cyhoeddusrwydd gael effaith niweidiol ar drydydd partïon (er efallai bydd achosion eithriadol pan fyddwn yn cyhoeddi mewn amgylchiadau o'r fath, er enghraifft pan fydd lefel uchel o ddiddordeb gan y cyhoedd yn y mater sy'n destun cwyn).

3.26 Byddwn yn darparu ymateb cryno i'r achwynydd pan fyddwn yn cau asesiad i roi gwybod iddo ein bod naill ai heb fwrw ymlaen â'i gŵyn a/neu y byddwn yn lansio ymchwiliad i gydymffurfiaeth y darlledwr â'i ofynion perthnasol. Dyma'r un lefel o fanylder a gyhoeddwn yn y Bwletin Bwletin Broadcast and On Demand. Nid fyddwn yn darparu unrhyw fanylion pellach am ein hasesiad i'r achwynydd, ac ni fyddwn ychwaith yn gohebu â'r achwynydd ynghylch y canlyniad. Fel arfer, ni fyddwn yn ymateb i unrhyw gyswllt pellach gan yr achwynydd, oni bai ei fod yn darparu rhagor o dystiolaeth nad yw darlledwr wedi cydymffurfio â gofyniad perthnasol.

# 4. Asesiadau

## Asesiadau a wnawn ar ein liwt ein hunain

4.1 Yn ogystal ag asesu cwynion a wneir gan eraill, efallai y byddwn yn lansio asesiadau ar ein liwt ein hunain (er enghraifft, monitro rheolaidd). Mae'r gweithdrefnau mewn asesiad sy'n cael ei arwain gan gŵyn ac asesiad sydd wedi'i gychwyn gan Ofcom yr un fath.

## Y broses asesu

### Asesiad cychwynnol

4.2 Yn gyntaf, bydd Ofcom yn cynnal asesiad cychwynnol o'r materion a godwyd ac yn ystyried a yw'r gŵyn, ar yr olwg gyntaf, yn codi materion a allai fod yn sylweddol mewn perthynas â gofyniad perthnasol.

4.3 Os nad yw cwyn yn codi materion a allai fod yn sylweddol mewn perthynas â gofyniad perthnasol, byddwn yn penderfynu peidio â mynd ar ei drywydd hyn yn y cam hwn. Mae hyn yn cynnwys os yw'r materion y tu allan i gylch gwaith y gweithdrefnau hyn.

4.4 Fel rheol, byddwn yn cyhoeddi ein penderfyniad i beidio â mynd ar drywydd y mater yn ein Bwletin Broadcast and On Demand. Serch hynny, efallai y bydd rhai achosion pan fyddwn o'r farn y byddai'n amhriodol rhoi cyhoeddusrwydd i'r mater, er enghraifft oherwydd bod y materion yn arbennig o sensitif a/neu gallai cyhoeddusrwydd gael effaith niweidiol ar drydydd partïon (er efallai bydd achosion eithriadol pan fyddwn yn cyhoeddi mewn amgylchiadau o'r fath, er enghraifft pan fydd lefel uchel o ddiddordeb gan y cyhoedd yn y mater sy'n destun cwyn).

### Blaenoriaethau gweinyddol

4.5 Rydym yn penderfynu a ddylid cymryd camau gweithredu neu beidio fesul achos, ar ôl ystyried ein dyletswyddau a'r holl faterion sy'n ymddangos yn berthnasol. Wrth wneud hynny, rydym yn arfer ein disgresiwn i gyfeirio camau gweithredu at achosion sydd, yn ein barn ni, fwyaf tebygol o gymell cydymffurfedd â'r gofyniad/gofynion perthnasol ac a fydd felly o fudd i gynulleidfaoedd a, lle bo hynny'n berthnasol, gwirfoddolwyr a'r gymuned darged. Mae'n bwysig hefyd ein bod yn gweithredu:

a) mewn ffordd effeithlon ac effeithiol;
b) mewn ffordd sy'n seiliedig ar dystiolaeth, yn gymesur, yn gyson, yn atebol ac yn dryloyw; ac
c) sy'n targedu achosion lle mae angen gweithredu yn unig. Ni allwn fynd ar drywydd pob mater posibl sy'n dod i'n sylw a rhaid i ni benderfynu a ddylid mynd ar drywydd achosion drwy bwyso a mesur manteision tebygol cynnal asesiad neu ymchwiliad yn erbyn yr adnoddau sydd eu hangen, a'r manteision cymharol o ddefnyddio'r adnoddau hynny mewn ffyrdd eraill.

4.6 Byddwn yn edrych ar y mater/materion sy'n destun cwyn i weld a yw: (i) yr achos yn flaenoriaeth weinyddol i Ofcom; a/neu (ii) natur/hyd a lled y dystiolaeth sydd gennym yn cyfiawnhau asesu'r mater/materion ymhellach ar ôl ystyried yr holl ffactorau perthnasol.

4.7 Dyma'r materion blaenoriaeth weinyddol y byddwn fel arfer yn eu hystyried, pan fyddan nhw'n berthnasol i'r achos:

a) Y risg o niwed neu ddifrifoldeb yr ymddygiad honedig. Er enghraifft:

i) y risg i fuddiannau dinasyddion neu ddefnyddwyr, er enghraifft, cynulleidfaoedd ac, mewn rhai achosion, gwirfoddolwyr a'r gymuned darged, sy'n deillio o'r achos/achosion honedig o dorri amodau (gan gynnwys: a yw'r risg honno ar unwaith ai peidio, ac a yw'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol); a'r budd uniongyrchol ac anuniongyrchol i ddinasyddion a defnyddwyr wrth i ni gymryd camau (er enghraifft, i atal ymddygiad tebyg gan eraill);
ii) a yw'r ymddygiad yn digwydd drwy'r amser;
iii) a yw'r honiad yn ymwneud ag ymddygiad sy'n ymddangos fel petai'n achos o dorri amodau yn fwriadol, dro ar ôl tro, a/neu mewn modd di-hid[12];
iv) a oes gan y darlledwr dan sylw hanes o dorri'r un amod trwydded, neu hanes amlwg o gydymffurfio gwael yn fwy cyffredinol. Efallai y byddwn hefyd yn ystyried penderfyniadau blaenorol a wnaed o dan ein fframwaith blaenoriaethau gweinyddol lle gwnaethom benderfynu peidio â lansio ymchwiliad; a
v) y risg y gallai'r ymddygiad leihau ymddiriedaeth dinasyddion a defnyddwyr yn y drefn reoleiddio gryn dipyn.

b) Effaith debygol mynd i'r afael â'r ymddygiad honedig ac a yw camau gweithredu amgen yn debygol o gyflawni'r un dibenion. Er enghraifft:

i) a fyddai ymchwiliad yn helpu i egluro'r fframwaith rheoleiddio neu gyfreithiol i randdeiliaid;
ii) a yw'r mater yn ymwneud yn uniongyrchol â blaenoriaethau neu nodau strategol ehangach Ofcom (gan gynnwys y rheini yng Nghynllun Gwaith Blynyddol Ofcom); a/neu
iii) a oes camau amgen eraill sy'n debygol o gyflawni'r un dibenion neu ddelio â'r un materion yn yr un modd â pharhau â'r asesiad ac, os yw'n berthnasol, cynnal ymchwiliad.

c) Y goblygiadau o ran adnoddau wrth barhau â'r asesiad ac, os yw'n berthnasol, cynnal ymchwiliad. Er enghraifft, pa adnoddau (yn enwedig adnoddau arbenigol) sydd eu hangen, wrth ystyried yr angen i wasanaethu buddiannau'r holl bartïon y mae hyn yn debygol o effeithio arnyn nhw.

4.8 Lle y bo'n briodol, byddwn yn ystyried unrhyw ffactorau ychwanegol perthnasol.

4.9 Byddwn yn ystyried ein blaenoriaethau gweinyddol drwy gydol y broses asesu ac ymchwilio ac efallai y byddwn yn penderfynu yn ddiweddarach i beidio â mynd ar drywydd achos ar sail y ffactorau uchod.

4.10 Bydd y blaenoriaethau gweinyddol uchod hefyd yn cael eu hystyried wrth lansio asesiad neu ymchwiliad ar ein liwt ein hunain.

[12] Er enghraifft, byddem yn ystyried a oes tystiolaeth bod yr achos honedig o dorri amodau wedi digwydd o ganlyniad i faterion sydd y tu hwnt i reolaeth y darlledwr neu a yw'r darlledwr wedi rhoi gwybod i ni am fater cyn bod unrhyw gŵyn yn cael ei gwneud.

## Gofyn am wybodaeth a/neu gynnwys gan y darlledwr

4.11 Os byddwn yn credu y dylem asesu’r mater/materion ymhellach, efallai y byddwn yn rhoi crynodeb o’r mater/materion a godwyd i’r darlledwr[13] a gofyn i’r darlledwr am wybodaeth er mwyn ein helpu i ystyried y mater/materion, a/neu – mewn achosion sy’n ymwneud ag allbwn gwasanaeth darlledu – recordiadau o'r allbwn perthnasol y mae’n rhaid ei ddarparu cyn pen pum niwrnod gwaith.[14] Serch hynny, efallai y byddwn yn ystyried ei bod yn briodol (er budd tegwch a/neu er mwyn cynnal asesiad yn briodol, neu mewn achosion lle gall fod niwed sylweddol) diwygio neu addasu’r cyfyngiadau amser mewn achos penodol, gan gynnwys cyflymu’r amserlen. Dylai unrhyw ddarlledwr y mae eisiau rhagor o amser arno roi esboniad ysgrifenedig i Ofcom ynghylch pam ei fod yn credu bod hynny'n briodol.

## Canlyniadau asesiadau

4.12 Ar sail asesiad cychwynnol o'r mater/materion, ein blaenoriaethau gweinyddol ac adolygiad o unrhyw allbwn perthnasol a ddarlledwyd, byddwn yn ystyried a yw’n ymddangos bod y darlledwr yn bodloni’r gofyniad/gofynion perthnasol ac, os nad yw, a ddylid agor ymchwiliad i’w gydymffurfedd. Ein nod yw cwblhau ein hasesiad o fewn 15 diwrnod gwaith, ond bydd yr amser y mae hyn yn ei gymryd yn amrywio fesul achos, yn dibynnu ar y mater/materion dan sylw.

4.13 Byddwn yn penderfynu naill ai i beidio â mynd ar drywydd y mater ymhellach neu i agor ymchwiliad i gydymffurfedd y darlledwr.

4.14 Pan fyddwn yn penderfynu peidio ag ymchwilio ymhellach, byddwn fel arfer yn cyhoeddi ein penderfyniad i beidio â mynd ar drywydd y mater yn ein Bwletin Broadcast and On Demand. Serch hynny, efallai y bydd rhai achosion pan fyddwn o’r farn y byddai’n amhriodol rhoi cyhoeddusrwydd i’r mater, er enghraifft oherwydd bod y materion yn arbennig o sensitif a/neu gallai cyhoeddusrwydd gael effaith niweidiol ar drydydd partïon (er efallai bydd achosion eithriadol pan fyddwn yn cyhoeddi mewn amgylchiadau o'r fath, er enghraifft pan fydd lefel uchel o ddiddordeb gan y cyhoedd yn y mater sy’n destun cwyn).

4.15 Os byddwn wedi cysylltu â’r darlledwr i gael gwybodaeth neu recordiadau o’i allbwn er mwyn helpu i asesu’r mater, byddwn yn rhoi gwybod i’r darlledwr am ein penderfyniad cyn ei gyhoeddi.

4.16 Pan fyddwn yn penderfynu agor ymchwiliad i gydymffurfedd darlledwr â gofyniad perthnasol penodol, byddwn yn dilyn y broses a nodir yn Adran 5 y gweithdrefnau hyn.

---

[13] Pan na fydd crynodeb yn rhoi digon o wybodaeth i’r darlledwr fel ei fod yn gallu rhoi sylwadau’n briodol, gallwn rannu fersiwn nad yw’n gyfrinachol o’r gŵyn a gyflwynwyd â’r darlledwr er mwyn cael ei sylwadau. Yn gyffredinol, ni fyddwn yn rhannu â’r darlledwr pwy yw’r sawl sy’n cwyno oni bai, ym marn Ofcom, fod angen gwneud hynny er mwyn galluogi’r darlledwr i arfer ei hawliau amddiffyn. Mae rhagor o wybodaeth am hyn yn Adran 3.

[14] Mae’n amod o bob trwydded darlledu ei bod yn rhaid i’r sawl sy’n dal y drwydded wneud a chadw copi o recordiad o’i holl raglenni am gyfnod penodol o ddiwrnodau ar ôl darlledu. Mae’n amod o bob trwydded darlledu hefyd ei bod yn rhaid i’r sawl sy’n dal y drwydded ddarparu gwybodaeth y gall fod ei hangen ar Ofcom er mwyn arfer ei swyddogaethau.

# 5. Ymchwiliadau

## Agor ymchwiliad

5.1 Efallai y byddwn yn lansio ymchwiliadau ar ein liwt ein hunain (er enghraifft, oherwydd bod ffioedd trwydded blynyddol heb eu talu neu wybodaeth heb ei darparu) heb gwblhau asesiad, yn ogystal ag ymchwilio yn dilyn asesiad (mae’r manylion yn Adran 4 y gweithdrefnau hyn). Mae’r gweithdrefnau mewn ymchwiliad sy’n cael ei arwain gan gŵyn ac ymchwiliad sydd wedi’i gychwyn gan Ofcom yr un fath.

5.2 Pan fyddwn yn penderfynu agor ymchwiliad i gydymffurfedd darlledwr â gofyniad perthnasol penodol, yn gyffredinol byddwn yn rhoi gwybod i’r darlledwr drwy anfon llythyr agor achos ato, gan egluro hyd a lled ein hymchwiliad (hynny yw, y gofyniad/gofynion perthnasol penodol rydym yn credu sy’n berthnasol i’r mater/materion dan sylw).

5.3 Yn fuan ar ôl anfon y llythyr agor achos, byddwn fel rheol yn cyhoeddi manylion y mater/materion yr ymchwilir iddyn nhw yn ein Bwletin Broadcast and On Demand. Serch hynny, efallai y bydd rhai achosion pan fyddwn o’r farn y byddai’n amhriodol rhoi cyhoeddusrwydd i’r mater/materion yn y cam hwn, er enghraifft oherwydd bod y mater/materion yn arbennig o sensitif a/neu gallai cyhoeddusrwydd gael effaith niweidiol ar drydydd partïon (er efallai bydd achosion eithriadol pan fyddwn yn cyhoeddi mewn amgylchiadau o'r fath, er enghraifft pan fydd lefel uchel o ddiddordeb gan y cyhoedd yn y mater sy’n destun cwyn). Mewn achosion o’r fath, efallai y byddwn yn gohirio rhoi cyhoeddusrwydd i’r ymchwiliad nes ei fod wedi'i gwblhau neu efallai y byddwn yn penderfynu peidio â rhoi cyhoeddusrwydd i achosion o'r fath o gwbl.

5.4 Ein nod yw cwblhau’r achosion hynny rydym yn ymchwilio iddyn nhw o fewn 50 diwrnod gwaith, ond bydd yr amser y mae hyn yn ei gymryd yn amrywio fesul achos, yn dibynnu ar y mater/materion dan sylw.

### Gofyn am sylwadau

5.5 Ac eithrio mewn achosion a ddaw dan baragraff 5.6, pan fyddwn yn anfon y llythyr agor achos at y darlledwr, byddwn yn gwahodd y darlledwr i gyflwyno sylwadau mewn ymateb (a darparu unrhyw dystiolaeth/deunydd perthnasol i’w cefnogi) cyn pen 10 diwrnod gwaith. Dylai'r darlledwr gadw at y cyfyngiad amser hwn. Serch hynny, efallai y byddwn yn ystyried ei bod yn briodol (er budd tegwch a/neu er mwyn cynnal ymchwiliad yn briodol, neu mewn achosion lle gall fod niwed sylweddol) diwygio neu addasu’r cyfyngiad amser mewn achos penodol, gan gynnwys cyflymu’r amserlen. Dylai unrhyw ddarlledwr y mae eisiau rhagor o amser arno roi esboniad ysgrifenedig i Ofcom ynghylch pam ei fod yn credu bod hynny'n briodol.

5.6 Efallai fod achosion penodol pan fydd y materion a godwyd, ar sail y ffeithiau, yn golygu na fyddwn o’r farn bod angen gofyn am sylwadau neu unrhyw wybodaeth bellach gan y darlledwr yn y cam hwn. Bydd hyn yn digwydd fel rheol pan fydd yr achos o dorri gofyniad perthnasol yn ffaith mae modd ei fesur (er enghraifft, yn ymwneud ag a yw darlledwr wedi talu ffioedd trwydded neu wedi darparu gwybodaeth i Ofcom). Efallai y bydd achosion penodol eraill hefyd pan fydd y materion a godwyd yn golygu ei bod yn briodol dilyn y dull gweithredu hwn. Yn yr achosion hyn, fel rheol, ni fyddwn yn gofyn am sylwadau’r darlledwr yn y cam hwn. Yn lle hynny, byddwn yn ysgrifennu at y darlledwr gyda’n Safbwynt

Rhagarweiniol ar sylwedd y mater/materion ar yr un pryd ag y byddwn yn anfon ein llythyr agor achos, neu'n fuan ar ôl hynny.

## Sylwadau gan drydydd parti

5.7 Rydym yn cydnabod y gallai canlyniad ymchwiliad a phenderfyniad ynghylch cydymffurfedd darlledwr â gofyniad perthnasol effeithio'n uniongyrchol ar rai unigolion/cyrff, a bod ganddyn nhw, o bosibl, fuddiannau sy'n annibynnol ar y darlledwr perthnasol. Lle bynnag y bo modd, dylai darlledwyr geisio ystyried a chynnwys sylwadau unigolion/cyrff o'r fath yn eu cyflwyniadau wrth ymateb i'n cais am sylwadau ar y materion a godwyd, a chadarnhau wrthym eu bod wedi gwneud hynny.

5.8 Fodd bynnag, gall unigolion/cyrff o'r fath gyflwyno sylwadau ar eu rhan eu hunain yn uniongyrchol i Ofcom mewn perthynas â mater rydym yn bwrw ymlaen i ymchwilio iddo. Mewn achos o'r fath, dylai unigolion/cyrff geisio cyflwyno sylwadau i ni cyn gynted ag sy'n bosibl mewn ymchwiliad, gan nodi a yw eu sylwadau yn wahanol i sylwadau'r darlledwr ac i ba raddau maen nhw'n wahanol. Byddwn yn ystyried y sylwadau hynny fel sy'n briodol ac yn cynnwys yr unigolion/cyrff hynny yn ein proses penderfynu dan y gweithdrefnau hyn.

# Paratoi Safbwynt Rhagarweiniol Ofcom

5.9 Byddwn yn paratoi ein Safbwynt Rhagarweiniol ynghylch a yw'r darlledwr wedi torri'r gofyniad/gofynion perthnasol. Rhywbeth dros dro yw'r Safbwynt Rhagarweiniol hwn, a gallai newid yng ngoleuni sylwadau/deunydd dilynol a roddir gan y darlledwr ac unrhyw drydydd parti perthnasol (os yw hynny'n berthnasol), fel yr esbonnir isod.

5.10 Os byddwn yn credu bod angen cael rhagor o wybodaeth – ar ben unrhyw wybodaeth a/neu sylwadau y mae'r darlledwr wedi'u rhoi yn barod – i sicrhau ein bod yn gallu paratoi ein Safbwynt Rhagarweiniol yn deg ac yn briodol, byddwn yn gofyn am wybodaeth o'r fath cyn paratoi'r Safbwynt hwnnw.

5.11 Bydd y penderfyniad i gyhoeddi Safbwynt Rhagarweiniol yn cael ei wneud gan uwch gydweithiwr Ofcom a fydd wedi cael awdurdod dirprwyedig priodol gan y Bwrdd. Fel rheol, dyma'r unigolyn a fyddai'n gyfrifol am oruchwylio'r ymchwiliad. Pan fyddwn o'r farn y byddai'n briodol, byddwn hefyd yn darparu Safbwynt Rhagarweiniol drafft i banel o aelodau Bwrdd Cynnwys Ofcom[15] i gael eu barn ymgynghorol cyn cwblhau ein Safbwynt Rhagarweiniol.

5.12 Bydd y Safbwynt Rhagarweiniol yn cynnwys:

- crynodeb o'r mater/materion ac, os yw'n berthnasol, unrhyw gŵyn/cwynion;
- crynodeb o unrhyw allbwn a ddarlledwyd, os yw'n berthnasol;
- y gofyniad/gofynion perthnasol rydym yn ymchwilio iddyn nhw;
- unrhyw sylwadau a wneir gan y darlledwr (ac unrhyw drydydd parti perthnasol) yn ystod yr asesiad a'r ymchwiliad; a
- ein hasesiad rhagarweiniol ynghylch a oes achos o dorri'r gofyniad/gofynion perthnasol a pham.

[15] Mae'r Bwrdd Cynnwys yn bwyllgor o brif Fwrdd Ofcom a sefydlwyd gan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003. Mae'n cynnwys aelodau sydd â phrofiad helaeth o ddarlledu.

5.13 Os byddwn o’r farn, yn y cam Safbwynt Rhagarweiniol, nad oedd achos o dorri’r gofyniad/gofynion perthnasol, byddwn fel arfer yn gallu dod i Benderfyniad heb ofyn am ragor o sylwadau gan y darlledwr.

## Sylwadau ar Safbwynt Rhagarweiniol Ofcom

5.14 Pan fyddwn wedi paratoi ein Safbwynt Rhagarweiniol, byddwn yn ei roi i’r darlledwr (ac unrhyw drydydd parti perthnasol).

5.15 Bydd y darlledwr (ac unrhyw drydydd parti perthnasol) yn cael cyfle i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig ynghylch ein Safbwynt Rhagarweiniol o fewn 10 diwrnod gwaith. Dylai'r darlledwr (ac unrhyw drydydd parti) gadw at y cyfyngiad amser hwn. Serch hynny, efallai y byddwn yn ystyried ei bod yn briodol (er budd tegwch a/neu er mwyn cynnal ymchwiliad yn briodol, neu mewn achosion lle gall fod niwed sylweddol) diwygio neu addasu’r cyfyngiad amser mewn achos penodol, gan gynnwys cyflymu’r amserlen. Dylai unrhyw ddarlledwr (neu unrhyw drydydd parti) y mae eisiau rhagor o amser arno roi esboniad ysgrifenedig i Ofcom ynghylch pam ei fod yn credu bod hynny'n briodol.

5.16 Rydym o’r farn y byddwn fel rheol yn gallu gwneud ein Penderfyniad terfynol yn deg ac yn briodol ar ôl cael sylwadau ysgrifenedig a heb sylwadau llafar gan y darlledwr. Serch hynny, efallai y bydd rhai achosion, oherwydd natur y tor amod sy’n cael ei ystyried a chymhlethdod y materion a godwyd, pan fyddwn yn credu ei bod hi’n briodol rhoi cyfle i’r darlledwr gyflwyno ei sylwadau ar lafar i ni, ar ôl cyflwyno unrhyw sylwadau ysgrifenedig. Byddwn yn rhoi gwybod i’r darlledwr os ydym yn credu ei bod hi’n briodol cynnig cyfle i’r darlledwr gyflwyno sylwadau llafar mewn achos penodol.[16]

5.17 Sut bynnag, caiff darlledwr, mewn unrhyw achos penodol, wneud cais ysgrifenedig i gyflwyno ei sylwadau ar lafar i Ofcom yn ogystal â chyflwyno unrhyw sylwadau ysgrifenedig. Byddwn yn cytuno ar gais o’r fath os ydym yn credu bod gwrandawiad llafar yn briodol wrth ystyried natur yr achos/achosion dan sylw o dor amod a chymhlethdod y mater/materion a godwyd.

# Y Penderfyniad

5.18 Ar ôl i ni gael ac ystyried sylwadau (os oes rhai) gan y darlledwr ynghylch ein Safbwynt Rhagarweiniol a/neu unrhyw sylwadau gan drydydd parti perthnasol, byddwn yn gwneud ein penderfyniad terfynol (hynny yw, a ddylid cofnodi achos/achosion o dorri amod trwydded neu ofyniad/gofynion perthnasol eraill) (“y Penderfyniad”).

5.19 Pan fo panel o aelodau’r Bwrdd Cynnwys wedi rhoi barn ymgynghorol ar y Safbwynt Rhagarweiniol mewn achos penodol, yn gyffredinol byddai’r Penderfyniad drafft yn cael ei roi gerbron panel o aelodau Bwrdd Cynnwys Ofcom (nad ydynt wedi bod yn ymwneud â’r ymchwiliad na’r Safbwynt Rhagarweiniol) i gael eu barn ymgynghorol cyn gwneud penderfyniad terfynol.

5.20 Bydd y Penderfyniad yn cael ei wneud gan uwch gydweithiwr Ofcom gydag awdurdod dirprwyedig priodol gan y Bwrdd, na fydd wedi bod yn ymwneud â’r ymchwiliad a/neu’r gwaith o baratoi’r Safbwynt Rhagarweiniol.

[16] Y sawl sy'n gwneud y penderfyniad terfynol fyddai'n cadeirio unrhyw wrandawiad llafar.

5.21 Bydd Penderfyniad fel arfer yn cynnwys un o’r tri chanlyniad canlynol:

a) Wedi torri amod: mae’r darlledwr wedi torri’r gofyniad/gofynion perthnasol;
b) Wedi’i ddatrys: rydym yn ystyried bod y mater wedi’i ddatrys; a/neu
c) Heb dorri amod: nid yw’r darlledwr wedi torri’r gofyniad/gofynion perthnasol.

5.22 Yn ein Penderfyniad, byddwn yn ei gwneud yn glir a ydym yn bwriadu cymryd unrhyw gamau pellach ar ôl i’r ymchwiliad ddod i ben. Bydd hyn wedi cael ei benderfynu gan yr un cydweithiwr sydd ag awdurdod dirprwyedig priodol gan y Bwrdd i wneud y Penderfyniad. Gall y camau pellach gynnwys (ymhlith pethau eraill):

a) monitro’r gwasanaeth i sicrhau bod y darlledwr yn cydymffurfio â’r gofyniad/gofynion perthnasol;
b) gofyn bod y darlledwr yn mynychu cyfarfod gydag Ofcom i drafod ei ffordd o fynd ati i gydymffurfio;
c) rhoi cyfarwyddyd; a/neu
d) ystyried gosod sancsiwn statudol ar gyfer yr achos/achosion o dorri amodau.

5.23 Rydym yn rhoi mwy o fanylion am y camau posibl uchod yn Adran 6.

## Cyhoeddi'r Penderfyniad

5.24 Pan fyddwn yn dod i’r casgliad bod darlledwr wedi torri gofyniad/gofynion perthnasol, byddwn yn cyhoeddi ein Penderfyniad yn ein Bwletin Broadcast and On Demand a/neu yn yr adran trwyddedau darlledu perthnasol ar wefan Ofcom. Fel rheol, byddwn yn cyhoeddi pob Penderfyniad ynghylch torri amod a materion wedi’u datrys, hyd yn oed pan na fyddwn wedi rhoi cyhoeddusrwydd o’r blaen i’r mater/materion yr ymchwiliwyd iddyn nhw oherwydd byddai’n amhriodol rhoi cyhoeddusrwydd i’r mater pan wnaethom agor yr ymchwiliad.

5.25 Byddwn yn rhoi copi o’r Penderfyniad dan embargo i’r darlledwr, er gwybodaeth yn unig, un diwrnod gwaith cyn ei gyhoeddi.

5.26 Fel rheol, byddwn hefyd yn cyhoeddi gwybodaeth yn ein Bwletin Broadcast and On Demand i ddangos ein bod wedi dod i’r casgliad nad yw'r darlledwr wedi torri gofyniad/gofynion perthnasol, ond nid ydym fel arfer yn datgan yn gyhoeddus y rhesymau dros hyn. Pan na fyddwn wedi cyhoeddi manylion ynghylch mater/materion sy’n destun ymchwiliad, fel rheol ni fyddem yn cyhoeddi penderfyniad “heb dorri amod” wrth i’r ymchwiliad ddod i ben.

5.27 Pan fyddwn wedi cyhoeddi ein bod wedi agor ymchwiliad a ninnau wedyn yn dewis rhoi’r gorau iddo, byddwn yn cyhoeddi ein bod wedi rhoi’r gorau i’r ymchwiliad yn ein Bwletin Broadcast and On Demand.

# Datgelu gwybodaeth gan ddarlledwyr ac Ofcom

5.28 Mae’n rhan hanfodol o hygrededd ein prosesau a’n gallu i reoleiddio’n deg fod pob parti dan sylw yn cydweithredu â’r rheolau a’r gweithdrefnau sydd wedi cael eu cyhoeddi gennym ac yn parchu cyfrinachedd ymchwiliadau. Oni nodir yn wahanol, caiff partïon (y sawl sy’n cwyno, darlledwyr, Ofcom ac unrhyw drydydd partïon yr effeithir arnyn nhw’n uniongyrchol) gyhoeddi’r ffaith bod cwyn wedi cael ei gwneud neu fod Ofcom wrthi’n asesu neu’n ymchwilio i achos. Mae modd iddyn nhw hefyd ddefnyddio unrhyw wybodaeth sydd eisoes ar gael yn gyhoeddus.

5.29 Fodd bynnag, mae unrhyw ohebiaeth, dogfennau neu ddeunydd arall sy'n ymwneud â'r gŵyn/mater yn ystod yr asesiad/ymchwiliad yn cael eu hystyried yn gyfrinachol nes bydd Ofcom yn eu cyhoeddi. Gall datgelu'r wybodaeth hon mewn unrhyw ffordd cyn iddi gael ei chyhoeddi gan Ofcom arwain at hawliad gan drydydd parti am achos o dorri cyfrinachedd o dan gyfraith gyffredin neu ddeddfwriaeth diogelu data.

5.30 Mae'n rhaid i Ofcom gyflawni dyletswyddau statudol amrywiol sy'n ymwneud â datgelu gwybodaeth (er enghraifft, dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004). Efallai y bydd yn rhaid i Ofcom ddatgelu gwybodaeth a roddir iddo fel rhan o gŵyn er mwyn cyflawni dyletswyddau o'r fath.

5.31 Caiff Ofcom (wrth asesu/ymchwilio ac wrth gyhoeddi ei benderfyniad) ddal deunyddiau yn ôl os yw'n credu eu bod yn gyfrinachol, yn sensitif i'r farchnad neu â braint gyfreithiol, neu os yw'n rhwym wrth ddyletswyddau cyfreithiol eraill i'w diogelu rhag cael eu datgelu. Mewn achosion o'r fath, bydd y darlledwr yn cael gwybod bod deunyddiau perthnasol wedi cael eu dal yn ôl, ac yn cael y rhesymau dros hynny.

# 6. Camau pellach yn dilyn ymchwiliad

6.1 Isod, rydym yn nodi rhai o’r camau pellach y gallwn eu cymryd yn dilyn penderfyniad torri amod neu fater wedi’i ddatrys. Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr o bob cam y gallwn eu cymryd.

## Monitro

6.2 Gall Ofcom benderfynu monitro’r gwasanaeth i sicrhau bod y darlledwr yn cydymffurfio â’r gofyniad/gofynion perthnasol a oedd yn destun y Penderfyniad. Byddwn yn gofyn am recordiadau a gwybodaeth gan y darlledwr i wneud y gwaith monitro hwn. Bydd hyn yn dilyn y broses asesu a nodir yn Adran 4.

## Cyfarfod ynghylch cydymffurfio

6.3 Efallai y byddwn yn gofyn i ddarlledwr gyfarfod gydag Ofcom i drafod yn fanwl y gofyniad/gofynion perthnasol y gwelwyd bod y darlledwr wedi’u torri a ffordd y darlledwr o fynd ati i gydymffurfio. Fodd bynnag, mae’n bwysig nodi na all Ofcom ddarparu cyngor ar gydymffurfio i ddarlledwyr.

## Sancsiynau

### Cyfarwyddiadau

6.4 Dan y Deddfau Darlledu[17] a Deddf 2003[18] mae gan Ofcom y pŵer i gyhoeddi cyfarwyddyd yn unol â thrwydded darlledwr.

6.5 Efallai y byddwn yn cyhoeddi cyfarwyddyd o’r fath mewn unrhyw achos sy’n briodol yn ein barn ni. Gall hyn gynnwys achosion, er enghraifft, lle rydym o’r farn:

a) bod y darlledwr wedi torri cod neu reol berthnasol yn ddifrifol, ond nid yw Ofcom yn credu bod hynny’n cyfiawnhau ystyried sancsiwn pellach yn erbyn y darlledwr dan ein gweithdrefnau sancsiynau fel y nodir isod;
b) nad yw darlledwr wedi cydymffurfio’n brydlon ag unrhyw ofyniad perthnasol; a/neu
c) y ceir rhesymau eraill sy’n golygu ei bod yn briodol i ddarlledwr gymryd cam penodol.

6.6 Fel rheol, bydd Hysbysiad Cyfarwyddyd yn cael ei gyhoeddi yn ein Bwletin Broadcast and On Demand.

6.7 Os na fydd darlledwr yn cydymffurfio â chyfarwyddyd a gyhoeddir gan Ofcom, gall hyn arwain at ystyried sancsiynau statudol pellach yn erbyn y darlledwr. Mewn achosion o’r fath, byddai’r gweithdrefnau sancsiynau y cyfeirir atyn nhw’n berthnasol.

[17] Gweler, er enghraifft, adrannau 4(2) a 87(2) o Ddeddf 1990.
[18] Gweler, er enghraifft, adrannau 236 a 340 o Ddeddf 2003

## Sancsiynau pellach

6.8 Pan fyddwn yn penderfynu bod gofyniad/gofynion perthnasol wedi cael eu torri, gallwn gredu bod hynny'n cyfiawnhau ystyried sancsiwn statudol yn erbyn y darlledwr. Os felly, bydd ein Gweithdrefnau ar gyfer ystyried sancsiynau statudol mewn achosion o dorri amodau trwyddedau darlledu yn berthnasol.

6.9 Mae'r mathau o sancsiynau y gallwn eu gosod yn cynnwys rhoi cyfarwyddyd, rhoi cosb ariannol, cwtogi neu atal trwydded (mewn rhai achosion), a dirymu trwydded.